Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

**ATODIAD 4**

# Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu 2019: Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

1. Noda'r CUC yn ei *Higher Education Code of Governance* (2014) ('y Cod') 'governing bodies must conduct a regular, full and robust review of their effectiveness and that of their committees, the starting point for which should be an assessment against this Code and the statutory responsibilities alongside those which it has assumed and articulated independently (e.g. through a statement of primary responsibilities)'. Dylai adolygiadau o'r fath 'be conducted at least every four years with, as a minimum, an annual summary of progress towards achieving any actions arising from the last effectiveness reviews'.

2. Mae hwn yn grynodeb gweithredol o adroddiad yr Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu a gynhaliwyd yn ystod gwanwyn 2019 ar gais Cyngor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS). Comisiynwyd yr adolygiad gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

3. Yn cyd-fynd â'r crynodeb gweithredol mae cynllun gweithredu, sy'n cwmpasu PCYDDS a Phrifysgol Cymru, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 27 Medi 2019 ac a ddiweddarir o bryd i'w gilydd.

## Cylch gorchwyl a methodoleg

4. Roedd cylch gorchwyl yr adolygiad fel a ganlyn:

    a) Adolygu effeithiolrwydd y Cyngor wrth ymgymryd â'i Brif Gyfrifoldebau, gan gyfeirio'n benodol at y buddion ('gwerth ychwanegol') mae'n eu cyflwyno i'r Brifysgol.

    b) Rhoi sicrwydd i'r Cyngor a rhanddeiliaid eraill ei fod yn cyflawni ei rôl yn y modd gorau posibl ac yn bodloni gofynion y Cod.

    c) Gwneud argymhellion i'r Cyngor i gefnogi datblygu ei effeithiolrwydd a'i effeithlonrwydd ymhellach.

5. Dynododd y Cyngor y meysydd eang isod i'w hystyried:

    a) Y graddau mae aelodau'r Cyngor yn deall ac yn llunio ethos y Brifysgol ac yn ei chynorthwyo i gyflawni ei blaenoriaethau strategol.

    b) Y ffyrdd y cynorthwyir aelodau newydd y Cyngor i ddeall eu cyfrifoldebau ac i ymgymryd â nhw'n effeithiol.

    c) Y graddau mae aelodau annibynnol y Cyngor yn rhan o waith ehangach y Brifysgol (neu'r graddau y dylent fod).

    d) Eglurder y wybodaeth a ddarperir ar gyfer aelodau'r Cyngor.

e) Cyfraniad aelodau staff ar y Cyngor, gan gynnwys ystyriaeth o'u rôl mewn perthynas â phwyllgorau sefydlog.

f) Cyfraniad aelod-fyfyrwyr ar y Cyngor, gan gynnwys ystyriaeth o'u rôl mewn perthynas â phwyllgorau sefydlog.

g) Y ddynameg rhwng aelodau'r Cyngor a'r swyddogion.

h) Effeithiolrwydd a gwerth y Cyngor fel y'u canfyddir gan aelodau ac uwch swyddogion.

i) Rheoli buddiannau deuol.

j) Maint optimwm y Cyngor yn y dyfodol.

k) Aelodau'r Cyngor fel Ymddiriedolwyr Elusen.

6. Ymgymerwyd â'r adolygiad gan grŵp bach a benodwyd gan Gadeirydd y Cyngor mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, a oedd yn cynnwys:

- Eirlys Pritchard Jones, aelod annibynnol o'r Cyngor (Cadeirydd)
- Stephen Prenter, Pro-Ganghellor, Prifysgol Queen's, Belfast, aelod allanol
- Dai Rogers, aelod staff o'r Cyngor
- Rob Simkins, aelod-fyfyriwr o'r Cyngor

Darparwyd cefnogaeth gan Sarah Clark, Clerc y Cyngor.

7. Roedd methodoleg yr adolygiad yn cynnwys y canlynol (mewn trefn gronolegol):

a) paratoi dogfennau cefndirol i'r grŵp adolygu, gan gynnwys gwybodaeth gyd-destunol i'r aelod allanol. Roedd y dogfennau'n cynnwys adroddiadau diweddar a oedd ar gael yn gyhoeddus ar effeithiolrwydd llywodraethu addysg uwch;

b) arsylwi ar gyfarfod y Pwyllgor Strategaeth ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2019 gan aelod allanol y grŵp adolygu;

c) cyfarfod cychwynnol, byr o'r grŵp adolygu ar 13 Mawrth 2019 i drafod yr adolygiad gyda Chadeirydd y Cyngor ac wedi hynny i gytuno ar y dull a nodi llwybrau ymholi rhagarweiniol;

d) dosbarthu holiadur, yn seiliedig ar yr offer arolwg sydd ar gael gan y Sefydliad Arweinyddiaeth, i aelodau'r Cyngor a'r uwch swyddogion, a dadansoddi'r canlyniadau yn dilyn hyn. Ymatebodd 80% o'r aelodau i'r holiadur;

e) cyfarfodydd o'r grŵp adolygu gydag aelodau o'r Cyngor a'r uwch swyddogion ar 28-29 March 2019, a thrafodaethau unigol rhwng Cadeirydd y grŵp adolygu a'r aelodau hynny nad oedd yn gallu bod yn bresennol ar y dyddiadau hyn;

f) cyfarfod terfynol o'r grŵp ar 29 Mawrth 2019 a thrafodaethau'n dilyn hyn i gytuno ar ei gasgliadau rhagarweiniol;

g) paratoi adroddiad drafft gan y Clerc, i'w drafod a'i gymeradwyo gan y grŵp adolygu.

8. Mae'r grŵp adolygu'n ddiolchgar i holl aelodau'r Cyngor a'r uwch swyddogion a gymerodd ran yn yr adolygiad drwy gyfarfodydd a chwblhau'r holiadur, ac a gyfrannodd i'r trafodaethau mewn modd mor adeiladol.

**Casgliadau**

9. I gloi, ac yn sgil ei gyfarfodydd a'i drafodaethau, roedd y grŵp adolygu wedi:

- cadarnhau bod y Cyngor yn ymgymryd â'i Brif Gyfrifoldebau'n effeithiol;

- rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn bodloni gofynion *Higher Education Code of Governance* (2018) y CUC.

10. Nododd y grŵp adolygu lefel uchel yr ymrwymiad i'r Brifysgol ac i'w chenhadaeth, a'r lefel uchel o hyder yng Nghadeirydd y Cyngor ac yn arweinyddiaeth y Brifysgol, a oedd i'w gweld ar hyd ei drafodaethau. I gefnogi'r casgliad hwn, nododd aelod allanol y grŵp adolygu:

> *'Roedd yn bleser gwasanaethu'n Aelod Allanol ar y Grŵp Adolygu a benodwyd i ymgymryd ag adolygiad effeithiolrwydd llywodraethu o Gyngor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Rwy'n hyderus y caiff yr adolygiad effaith gadarnhaol a blaengar ar y Brifysgol. Hoffwn dalu teyrnged i'r proffesiynoldeb a'r trylwyredd a oedd yn nodwedd o'r adolygiad hwn, a arweiniwyd mor fedrus gan Eirlys Pritchard Jones. Mae'n amlwg bod gan aelodau'r Cyngor o bob carfan barch mawr at y Cyngor a'u bod yn ymfalchïo mewn gwasanaethu'r Brifysgol a bod yn gysylltiedig â PCYDDS. Roedd yr ysbryd cadarnhaol hwn yn amlwg yn y ffordd roedd cyfranogwyr wedi paratoi ar gyfer y cyfarfodydd ac yn cyfrannu'n ddilyffethair ar hyd y broses.*
>
> *Yn rhan o'm cylch gwaith allanol, mynychais (fel sylwedydd) gyfarfod o'r Pwyllgor Strategaeth ac Adnoddau. Roedd agenda helaeth o faterion sylweddol ar gyfer y cyfarfod hwn. Yn ystod y cyfarfod, roedd tystiolaeth eglur o herio o ansawdd uchel, cynllunio strategol a thrafodaeth gynhwysfawr, a lefel briodol o dyndra rhwng trosolwg strategol ac atebolrwydd gweithredol.*
>
> *Yn y cyfnod hwn o heriau difrifol yn y sector Addysg Uwch, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch cynaliadwyedd ariannol, mae'n braf adfyfyrio ar y lefel uchel o barch a hyder yn yr arweinyddiaeth yn PCYDDS a gyflëwyd yn ystod y broses. Dylwn hefyd sôn am ymrwymiad a chraffter pob aelod o'r grŵp adolygu, yn cynnwys Llywydd Undeb y Myfyrwyr.*
>
> *Yn rhinwedd fy swydd yn Pro Ganghellor a Chadeirydd y corff llywodraethu ym Mhrifysgol Queen's Belfast, rwy'n ymwneud ar hyn o bryd â chyfarfodydd arfarnu a gynhelir bob dwy flynedd â phob aelod unigol o'n corff llywodraethu. Mae fy mhrofiad fel Aelod Allanol yn PCYDDS wedi helpu i lywio fy nulliau yn Queen's ac rwy'n ddiolchgar am yr ymddiriedaeth a ddangoswyd ynof gan y tîm yn PCYDDS.'*

**Argymhellion**

11. Gwnaeth y grŵp adolygu 17 o argymhellion i gefnogi datblygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y Cyngor ymhellach, fel y'i nodir isod.

Argymhelliad 1: bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n adolygu strwythur y pwyllgorau sefydlog a'r is-bwyllgorau, gyda golwg ar gael strwythur diwygiedig a llai o faint yn ei le erbyn dechrau 2019/20.

Argymhelliad 2: yn rhan o'r adolygiad, y rhoddir ystyriaeth benodol i'r canlynol:

- rhinweddau cyflwyno eitemau strategol penodedig ac eitemau allweddol eraill (megis adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'r Gofrestr Risg) yn uniongyrchol i'r Cyngor, gan neilltuo amser penodol ar yr agenda ar gyfer y drafodaeth;

- a ellid cynnwys busnes y tri is-bwyllgor presennol o fewn busnes eu rhiant-bwyllgorau, yn enwedig petai llwyth gwaith y rhiant-bwyllgorau'n cael ei leihau drwy gyflwyno eitemau penodol yn uniongyrchol i'r Cyngor (gweler uchod);

- er gwaethaf y dymuniad i leihau nifer y pwyllgorau sefydlog, a fyddai buddion ynghlwm â sefydlu pwyllgor sefydlog i roi trosolwg ar faterion academaidd; a buddion chwilio am brofiad addysg uwch fel blaenoriaeth yn achos yr ymarfer recriwtio nesaf ar gyfer aelodau newydd ar y Cyngor;

- a ellid cyflawni mwy o integreiddio â strwythurau llywodraethu Prifysgol Cymru a'r colegau o fewn Grŵp PCYDDS;

- mynegi'r dulliau dwyieithrwydd sydd i'w mabwysiadu gan y Cyngor a'r pwyllgorau sefydlog;

- y nifer o gyfarfodydd y Cyngor y dylid eu trefnu bob blwyddyn;

- aelodaeth gyfredol y pwyllgorau sefydlog, er mwyn sicrhau bod sgiliau a phrofiad aelodau'n cael eu defnyddio er y gorau.

Argymhelliad 3: bod amserlen y Cyngor ar gyfer 2019/20 yn cynnwys adegau penodol ar gyfer digwyddiadau cynllunio a briffio.

Argymhelliad 4: bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried a fyddai budd ynghlwm â mynegi'n fwy ffurfiol y ffyrdd y gallai, neu y dylai, aelodau'r Cyngor fod yn rhan o waith ehangach y Brifysgol.

Argymhelliad 5: bod agendâu a phapurau ategol y Cyngor a'r pwyllgorau sefydlog yn cael eu trefnu fel eu bod:

- yn gwahaniaethu rhwng materion i'w trafod a'r rheini a fydd fel arfer yn cael eu cymeradwyo heb drafodaeth;

- yn cyflwyno pob eitem agenda drwy daflen flaen sy'n gwneud y canlynol yn eglur:
    - yn darparu crynodeb o'r dogfennau ategol (gan gyfeirio at leoliad unrhyw ffynonellau gwybodaeth ychwanegol pan fo'n briodol);
    - yn nodi'r penderfyniad sydd ei angen gan y Cyngor.

- pan fo'n bosibl, yn darparu adroddiad ysgrifenedig yng nghyswllt pob eitem, gan ganiatáu mwy o amser i aelodau amgyffred gwybodaeth ymlaen llaw ac iddynt gyfeirio ato wedi'r cyfarfod;
- o ran y Cyngor, pan fo'n bosibl, yn cychwyn pob sesiwn gyda chyflwyniadau, nad ydynt yn rhan ffurfiol o'r cyfarfod ond sy'n rhoi cyfleoedd i aelodau ddysgu mwy am ddatblygiadau mewn meysydd allweddol o'r Brifysgol, a'u trafod.

Argymhelliad 6: bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried a fyddai, yng nghyd-destun Argymhelliad 5, yn dymuno gwneud y canlynol:

- pennu hyd hiraf ar gyfer papurau;
- mabwysiadu system ar gyfer agendâu o faint mawr a fydd yn golygu neilltuo meysydd craffu penodol i aelodau unigol ymlaen llaw.

Argymhelliad 7: bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried a fydd angen, yn ei bryd, diwygio Ordinhad er mwyn cyfoethogi'r cyfleoedd am aelodaeth ar gyfer staff o leoliadau eraill.

Argymhelliad 8: bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried ffyrdd y gellid annog a chefnogi cyfraniadau aelodau staff ar y Cyngor ymhellach.

Argymhelliad 9: yn gysylltiedig ag Argymhelliad 8 uchod ac yn rhan o'r adolygiad o strwythur y pwyllgorau sefydlog a'r is-bwyllgorau, bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried rhinweddau creu cyfleoedd i aelodau staff ar y Cyngor ddod yn aelodau o bwyllgorau sefydlog allweddol.

Argymhelliad 10: yn rhan o'r adolygiad o strwythur y pwyllgorau sefydlog a'r is-bwyllgorau, bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n creu cyfleoedd i aelod-fyfyrwyr ar y Cyngor ddod yn aelodau o bwyllgorau sefydlog allweddol.

Argymhelliad 11: bod y Cyngor yn caniatáu i aelod o staff Undeb y Myfyrwyr fynd yn gwmni i aelod-fyfyrwyr o'r Cyngor i gyfarfodydd o'r Cyngor a'r pwyllgorau (gan nodi y byddai hawl i'r aelod o staff fod yn bresennol pan oedd aelod-fyfyriwr hefyd yn bresennol yn unig).

Argymhelliad 12: bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried a fyddai budd ynghlwm ag amserlennu mwy o gyfleoedd i aelodau gynnal trafodaethau heb fod swyddogion yn bresennol ar gyfer eitemau priodol.

Argymhelliad 13: y cyhoeddir cofnodion anghyfyngedig y Cyngor o 2019/20 ymlaen.

Argymhelliad 14: y gofynnir i aelodau, ar ddechrau pob cyfarfod, nodi unrhyw eitemau ar yr agenda y mae ganddynt fuddiant deuol ar eu cyfer.

Argymhelliad 15: bod y Cyngor yn ystyried lleihau'i faint yn gynyddol dros amser a thrwy ymddeoliad arfaethedig aelodau cyfredol, gan gofio bob amser yr angen i gynnal set sgiliau gytbwys a chynyddu amrywiaeth.

Argymhelliad 17: y trefnir yr adolygiad effeithiolrwydd mawr nesaf ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/22, ac ar gylch tair blynedd wedi hynny; a bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried y cynnydd yn erbyn argymhellion yr adolygiad yn ei gyfarfod cyntaf ymhob blwyddyn academaidd.

Argymhelliad 17: yn lle'r hunanwerthusiadau gan y pwyllgorau sefydlog a seilir ar holiadur bob dwy flynedd, y ceir trafodaeth fwy cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr adroddiad blynyddol a lunnir gan y Clerc, gyda'r canlyniadau ac unrhyw argymhellion yn cael eu hadrodd yn fersiwn terfynol yr adroddiadau a baratoir ar gyfer y Cyngor.